

**Canol a Gorllewin Cymru  
Rhaglen Cefnogi Pobl Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol**

**Dydd Iau, 13 Rhagfyr 2018, 10:00am  
The Plough Inn, Rhosmaen, Llandeilo SA19 6NP**

**Yn bresennol:**

Aelodau PCRh:

Cyng Jane Tremlett (Cadeirydd)  
Dr Gareth Morgan (GM)  
Sue Thomas (ST)  
Jonathan Morgan (JM)  
Chris Harrison

Jason Smith (JS)  
David Tovey (DT)  
Guy Evans (GE)  
Caroline Davies (CD)

Cyngor Sir Caerfyrddin  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda  
Cyngor Sir Ceredigion  
Cyngor Sir Caerfyrddin  
Cyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Sir Penfro  
Darparwyr a Chynrychiolwyr Landlordiaid  
Darparwyr a Chynrychiolwyr Landlordiaid  
Darparwyr a Chynrychiolwyr Landlordiaid  
Darparwyr a Chynrychiolwyr Landlordiaid

Cynghorydd PCRh:

Alun Jones (AJ) (Cadeirydd Dros Dro)  
Gary Proven (GP)  
Adrian Jones (AdJ)  
Anna Henchie (AH)  
Julian Brewer (JB)

Beverly B Davies (BD)

Cyngor Sir Caerfyrddin  
Cyngor Sir Ceredigion  
Cyngor Sir Powys  
Cyngor Sir Ceredigion  
Cyngor Sir Penfro

Cydgysylltydd Datblygu Rhanbarthol

**Ymddiheuriadau:**

Cllr Alun Williams (Cyng AW)  
Cllr Pat Davies (Cyng PD)  
Joy James (JJ)  
Emily James (EJ)  
Rachel Evans  
Cllr. James Evans (Cyng JE)  
Simon Inkson (SI)  
Stuart Bourne (SB)  
Louise Webster (LW)  
Christine Harley (CH)  
Claire McDonald (CMcD)

Cyngor Sir Ceredigion (CC)  
Cyngor Sir Penfro  
Cyngor Sir Penfro  
Cyngor Sir Penfro  
Cyngor Sir Powys  
Cyngor Sir Powys  
Cyngor Sir Powys  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Powys  
Darparwyr a Chynrychiolwyr Landlordiaid  
Gwasanaeth Prawf  
Llywodraeth Cymru

EITEM	COFNODION/CAMAU GWEITHREDU	ARWAIN
<p><b>1. Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau</b></p>	<p>Croesawodd y Cadeirydd bawb. Cyflwynodd bawb eu hunain. Cyfeiriodd BD at yr ymddiheuriadau.</p> <p>Crybwyllodd y Cadeirydd ymddiheuriadau oddi wrth Claire McDonald o Lywodraeth Cymru. Roedd CMcD i roi cyflwyniad ar y Grant Plant a Chymunedau a HSG, a sut all y ddau grant gydweithio; caiff y cyflwyniad ei aildrefnu yn y cyfarfod nesaf.</p>	<p><b>Cadeirydd Pawb BD</b></p> <p><b>Cadeirydd</b></p>
<p><b>2. Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf a Materion yn Codi</b></p> <p><b>Gweithredu</b></p>	<p>Adolygwyd Cofnodion y cyfarfod diwethaf a chytunwyd eu bod yn gywir.</p> <p>Awgrymodd DT bod darparwyr gwasanaethau PCRh a chynrychiolwyr landlordiaid yn cynrychioli holl ddarparwyr a landlordiaid yn y rhanbarth ac nid eu sefydliadau penodol; dylid adlewyrchu hyn yn y Cofnodion (a strwythurau PCRh).</p> <p>BD i ddiwygio'r Cofnodion i adlewyrchu'r argymhellion uchod</p> <p>Adolygodd y Cadeirydd Grynoded y Camau Gweithredu. Trefnwyd prosiectau parod ac arian llithriant fel eitem agenda ar gyfer y cyfarfod hwn.</p> <p>Cynigiwyd dyddiadau cyfarfodydd 2019. Gwahoddodd y Cadeirydd bawb i nodi'r dyddiadau a awgrymwyd.</p>	<p><b>Pawb</b></p> <p><b>DT</b></p> <p><b>BD</b></p>
<p><b>3. Datgan Buddiannau</b></p>	<p>Ni chodwyd unrhyw ddatganiad budd</p>	<p><b>Pawb</b></p>
<p><b>4. Y diweddaraf ar HSG a BCCCP Diwrnod Datblygu</b></p>	<p>Dywedodd y Cadeirydd wrth y PCRh ei bod hi a BD wedi mynychu Diwrnod Datblygu BCCCP yng Nghaerdydd ar 3ydd Rhagfyr.</p> <p>Daeth llawer i'r Achlysur ac roedd yn adeiladol, gan ofyn am deimladau a sylwadau pobl oedd yn cynrychioli amrywiol sefydliadau.</p> <p>Neges allweddol y diwrnod oedd mai 'busnes fel arfer' fyddai'r flwyddyn nesaf a bod LIC yn ymgynghori â holl randdeiliaid yn gynnar yn 2019.</p> <p>Gyda chaniatâd LIC, defnyddiodd BD y sleidiau a gyflwynodd Paul Webb yn y BCCCP i ddiweddarau'r PCRh gyda rhagor o fanylion HSG.</p> <p>Rhoddodd y cyflwyniad gefndir cryno HSG gan gynnwys llythyr diweddar LIC. Amlinellodd y llythyr mai disgwyliad</p>	<p><b>Cadeirydd</b></p> <p><b>BD</b></p>

EITEM	COFNODION/CAMAU GWEITHREDU	ARWAIN
	<p>LIC oedd y dylai'r grantiau HSG a CCG newydd weithio mewn modd di-dor, yn darparu gwasanaethau integredig pan fo hynny'n briodol; trefniadau ar gyfer 2019/20; ac argymhellion i ALI ar sail gwersi a ddysgwyd gan arloeswyr ac adroddiad cloriannu Wavehill.</p> <p>Mae llythyr Llywodraeth Cymru ar gael i'w weld yma:</p> <p>Amlygodd BD yr amrywiol achlysuron ymgysylltu y bydd LIC yn eu cynnal ym mis Chwefror 2019 a'r Grŵp Llywio GCT sefydledig i ysbrydoli'r gwaith ac i ddatblygu'r Grant Cymorth Tai newydd. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y grŵp ar 21 Tachwedd 2018. Nid yw'r grŵp llywio HSG yn gynrychiadol ac un o'r prif swyddogaethau yw dylunio agwedd cydgyhnrychiol at ymgysylltu â rhanddeiliaid.</p> <p>Mae modd cyfeirio unrhyw bryder neu bwnc llosg ynghylch HSG at Paul Webb, Katie Dalton neu Simon Rose.</p> <p>Bydd cyfarfod ar y cyd rhwng RhCGP a Rhwydwaith Digartrefedd ar 15fed Ionawr 2019 a byddwn yn cael mwy o ddiweddariadau ar HSG.</p> <p>Dywedodd DT bod modd cyfeirio pryderon darparwyr a landlordiaid hefyd i Katie Dalton, Cynrychiolydd Cymorth. Bydd Katie'n mynychu Fforwm Rhanbarthol Darparwyr y Canolbarth a'r Gorllewin.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu mynychu PCRh o leiaf ddwywaith yn ystod y flwyddyn nesaf.</p> <p>Holodd GM ble / sut gaiff llais iechyd ei glywed yn y grŵp. Mae GM wedi bod yn dod â'r materion cysylltiedig â thai o fewn y gwasanaeth iechyd a meddyliai y byddai'n wych cael rhywun yn y grŵp llywio craidd, dim o reidrwydd o'r Byrddau Iechyd ond o lechyd Cyhoeddus Cymru.</p> <p><b>Gweithredu</b></p> <p>BD i godi'r cwestiwn gyda Paul Webb ac anfon copi i GM.</p> <p><b>Gweithredu</b></p> <p>Cyflwynwyd Diben y Grŵp Llywio. Bydd yr achlysuron ymgysylltu arfaethedig yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dogfen negeseuon allweddol</li> </ul> <p>BD i gylchredeg holl ddogfennau allweddol o Lywodraeth Cymru i'r PCRh a fforymau darparwyr gwasanaethau:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Achlysuron ymgysylltu â rhanddeiliaid</li> <li>• Cyfathrebu manwl / penodol gydag Awdurdodau Lleol</li> <li>• Aelodau'r Grŵp Llywio / LIC sy'n mynd i gyfarfodydd allanol perthnasol (Cyfarfodydd PCRh)</li> </ul>	

EITEM	COFNODION/CAMAU GWEITHREDU	ARWAIN
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cydweithio rhwng HSG a Grant Plant a Chymunedau</li> </ul> <p>A bydd yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• SP / darparwyr ar gyfer digartrefedd a landlordiaid</li> <li>• Awdurdodau Lleol (SP, Digartrefedd, Tai, Gwasanaethau Cymdeithasol)</li> <li>• Pobl sy'n defnyddio SP a gwasanaethau digartrefedd</li> <li>• Meysydd polisi / partneriaid perthnasol (e.e. VAWDASV, Camddefnyddio Sylweddau, Iechyd Meddwl, TTI)</li> <li>• Partneriaid: Yr Heddlu, Iechyd, Profiannaeth ac ati.</li> </ul> <p>Nododd ST bod Llywodraeth Cymru'n gwneud llawer yn gynnar yn 2019.</p> <p>Cytunodd AH bod y cyfnod rhwng achlysuron ymgynghori a gweithrediad yn rhy fyr.</p> <p>Pwysleisiodd y Cadeirydd y bydd y PCRh a SP yn cynnal busnes fel arfer yn 2019/2020. Tra bo'r grant newydd yn dechrau ym mis Ebrill 2019, bydd newid go iawn yn digwydd yn 2020.</p> <p>Nododd BD y bydd y newid mewn dau gyfnod. Mae'r canllawiau atodol i'w cyhoeddi'n gynnar yn 2019 a byddant yn caniatáu i ni bontio i HSG. Bydd y ddogfen / canllawiau terfynol yn barod yn 2020.</p> <p>Gofynnodd DT am amserlen cyfarfodydd y grŵp llywio gan gynnwys llinellau amser a chamau gweithredu.</p> <p><b>Gweithredu</b> BD i ofyn am wybodaeth am hyn a'i borthi yn ôl i'r PCRh.</p> <p><b>Gweithredu</b> Gofynnodd AH a oes crynodeb o'r ymateb i'r achlysur BCCCP.</p> <p><b>Gweithredu</b> BD i gylchredeg unrhyw gofnodion o'r achlysur BCCCP i bawb.</p>	<p><b>BD</b></p> <p><b>BD</b></p>
<p><b>5. Sut all HSG a Grant Plant a Chymunedau (CCG) gydweithio</b></p> <p><b>Cyflwyniad a Holi ac Ateb</b></p>	<p>Oherwydd ymrwymadau eraill, nid oedd CMcD yn gallu gwneud y cyflwyniad.</p> <p>CMcD i'w gwahodd i'r cyfarfod nesaf.</p> <p>Yn unol ag EIPS / Ariannu Hyblyg, gwnaeth BD gais RhG i dîm ariannu hyblyg LIC am ddadansoddiad o'r deg rhaglen fesul awdurdod lleol. Gwnaed y cais hefyd mewn cysylltiad â holl CDRh gan obeithio cael dadansoddiad o EIPS ar gyfer pob un o'r 22 ALI. Edrychwyd eilwaith ar y cais yn dilyn y penderfyniad ynghylch dau grant.</p> <p>Mae'r wybodaeth am ddyraniadau grant fesul rhaglen ar gael ac mae modd gofyn i Awdurdodau Lleol amdani, gan</p>	<p><b>BD</b></p>

EITEM	COFNODION/CAMAU GWEITHREDU	ARWAIN
<b>Gweithredu</b>	<p>ffurfio man cychwyn ar gyfer cynllunio a chydweithio OND, byddai'n gwneud synnwyr os cawn ragor o wybodaeth a rhagor o fanylion ynghylch beth mae pob rhaglen yn ei chyflawni. Bydd hyn yn caniatáu i ni weld bylchau a chyfleoedd i gomisiynu ar y cyd.</p> <p>Mapio'r gwasanaethau sy'n cael eu cyflenwi trwy raglenni yn HSG a CCG.</p>	
<b>6. Diweddariad Ariannol</b>	<p>Yn Sir Gâr – arolygwyd y gyllideb bob mis. Ymrwymwyd y gyllideb yn llwyr ar gyfer 2018/19. Ni ragwelir unrhyw lithriant.</p> <p>Yng Ngheredigion – caiff y gyllideb ei harolygu pan ddaw anfonebau. Ymrwymwyd gwariant yn llwyr hefyd heb ragweld unrhyw danwario.</p> <p>Yn Sir Benfro – yn yr un modd, ymrwymwyd y gyllideb yn llwyr.</p> <p>Gwnaeth CH sylw ein bod wedi dysgu gwersi o brofiad blynyddoedd blaenorol. Mae arolygu'r gyllideb wedi gwella.</p> <p>Ym Mhowys – caiff y gyllideb ei harolygu bob mis. Mae tanwario disgwylledig o £36,000 i £48,000 (£12,000 y mis gan ddechrau ym mis Tachwedd) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Daw lithriant o Fyw gyda Chymorth LS. Mae Tîm SP yn ailddyrrannu'r lithriant ers mis Tachwedd ond bydd lithriant o fisoedd Rhagfyr i Fawrth.</p> <p>Cyflwynwyd prosiectau parod arfaethedig PCRh i SPMB Powys a chafodd cefnogaeth gadarnhaol. Mae posibilrwydd gwario lithriant yn y prosiectau parod rhanbarthol arfaethedig.</p> <p>Holodd GE a oes prosiectau presennol yn hytrach na phrosiectau newydd y mae modd dyrannu arian lithriant iddynt.</p> <p>O ran prosiectau parod, dywedodd DT tra bo'r PCRh yn cefnogi mewn egwyddor y prosiectau a gyflwynodd Michael Smith, nad oedd yn eglur sut olwg fyddai ar drefniadau a sut fydd yn golygu cyflwyno gan bobl oherwydd nad ydym wedi gweld proses debyg o'r blaen.</p> <p>Dywedodd BD wrth y PCRh ei bod wedi ymgynghori â CDRh eraill a'r canllawiau newydd ar brosiectau parod PCRh.</p> <p>Datganwyd diweddariadau ers y cyfarfod diwethaf.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae Michael Smith, y cydgysylltydd cydlyniad</li> </ul>	<p>AJ</p> <p>GP</p> <p>JB</p> <p>AdJ</p> <p>BD</p>

EITEM	COFNODION/CAMAU GWEITHREDU	ARWAIN
<p><b>Gweithredu</b></p>	<p>rhanbarthol, wedi symud i swydd newydd ac ni fydd mwyach yn cyflawni'r prosiectau ei hun. Fodd bynnag, mae BD yn barod i symud y prosiectau ymlaen gydag arweinwyr prosiectau unigol.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mewn rhanbarthau eraill, caiff llithriant ei roi i All lletyol. Bydd yr ALI lletyol yn dyfarnu llithriant i brosiectau dynodedig ac yn cadw golwg ar gynnydd a chanlyniadau. Fodd bynnag, nid yw hyn yn y Canllawiau ac mae hyblygrwydd yn sut fyddwn yn ei wneud.</li> </ul> <p>Pennodd CH y senarios ar sut orau i reoli'r llithriant, gan gynnwys pa ALI sydd orau i ddal yr arian, ble mae'r anghenion gwasanaeth.</p> <p>Yn hanesyddol, nid yw'r Canolbarth a'r Gorllewin wedi comisiynu'n rhanbarthol ac nid oes ganddo eto ddiwylliant cryf o gomisiynu rhanbarthol. Mae cyfleoedd i gomisiynu'n rhanbarthol ac mae Llywodraeth Cymru'n gwthio PCRh i gomisiynu mwy a mwy'n rhanbarthol.</p> <p>Dywedodd GE, tra bo croeso i'r prosiectau parod arfaethedig, nad ydynt yn cael eu hystyried yn berthnasol nac yn drosglwyddadwy yng Ngheredigion.</p> <p>Mynegwyd, os oes prosiectau'n bodoli sy'n berthnasol i'r rhanbarth y gallwn i gyd eu cyd-ddylunio, efallai eu bod yn werth eu hystyried ac yn fan cychwyn da.</p> <p>Awgrymodd GM bod y PCRh yn edrych ar fuddiannau cyffredin ar draws ALI er enghraifft buddiannau / gweithgareddau sy'n effeithio ar Fyrddau Iechyd Hywel Dda a Phowys gan sicrhau bod prosiectau'n fwy perthnasol i bawb ac yn cyd-fynd yn well â'n cynllun strategol.</p> <p>Cefnogwyd yr awgrymiadau uchod yn unfrydol gan y grŵp. Awgrymodd AH bod y broses yn cael ei dilyn yn agored. Dywedodd BD y byddwn yn cael cyfle nawr i flaenoriaethu datblygu prosiectau 'PCRh rhanbarthol parod' yn 2019/2020.</p> <p>Trafododd y grŵp sut mae'r PCRh yn mynd i gomisiynu'n rhanbarthol o lithriant o dderbyn amrywiol senarios. Awgrymodd AJ, o dderbyn yr amserlen, y gallwn ysgrifennu llythyr at Lywodraeth Cymru'n gofyn am drosglwyddo'r arian i'r flwyddyn ariannol ganlynol tra byddwn yn datblygu'r broses gywir ar gyfer comisiynu rhanbarthol. Dilynwyd y broses hon yn Sir Gâr. Croesawyd yr awgrym hwn gan y PCRh.</p> <p>Dywedodd CH y bydd y cynnig yn osgoi'r rhuthr i wario arian a chaniatáu i gomisiynu rhanbarthol fod yn fwy strategol.</p> <p>Ffurio grŵp llywio / gorchwyl bach i lunio'r drefn a'r broses ar gyfer comisiynu rhanbarthol a rheoli tanwariant gan</p>	<p><b>CH/BD</b></p>

EITEM	COFNODION/CAMAU GWEITHREDU	ARWAIN
	<p>sicrhau bod y broses yn agored.</p> <p>CH a BD i gadw cyswllt â phobl berthnasol i symud hyn ymlaen.</p> <p>Mynegodd AdJ bryder bod Powys yn gweithio'n wahanol i ALI eraill, gyda'r pwyslais ar sut orau i ddefnyddio'r arian a sut i fuddsoddi yn y ffordd iawn; dylai'r rhain fod yn rhan o'r styriaeth.</p>	
<p><b>7. Trefn bleidleisio newydd PCRh</b></p> <p><b>Gweithredu</b></p>	<p>Yn y cyfarfod diwethaf, cafodd y PCRh gyfle i bleidleisio ar benderfyniad. Ni chynhaliwyd y pleidleisio hwn mewn blynyddoedd blaenorol.</p> <p>Cyflwynodd BD drefn bleidleisio bresennol y Canolbarth a'r Gorllewin a gytunwyd yn 2014. Nid yw'r Canllawiau newydd (2018) yn benodol nac yn orchmynnol o ran aelodau â phleidlais ac, felly, maent yn agored i ddehongliad.</p> <p>Awgrymodd DT y gall yr hen drefn bleidleisio weithio. Efallai y bydd angen i ni drefnu'r llywodraethu o'i chwmpas. Mae cydbwysedd yn y nifer sy'n pleidleisio'n allweddol fel bod cyfle hefyd i roi llais i bob un o'r 6 darparwr a landlord yn y PCRh a chaniatáu 6 o bleidleisiau i'r ALI.</p> <p>Ni ddiweddarwyd y Cylch Gorchwyl ers 2014 i adlewyrchu'r Canllawiau newydd; mae cyfle i edrych eto ar y Cylch Gorchwyl yn unol â'r Grant newydd.</p> <p>Roedd trafodaeth ynghylch llywodraethu'r PCRh heddiw ac yn y dyfodol. Cytunwyd bod y PCRh yn aros i weld y Grant newydd yn dod i rym cyn edrych eto ar y Cylch Gorchwyl gan ei wneud yn fwy strategol.</p> <p>Adolygu'r Cylch Gorchwyl i adlewyrchu Canllawiau Ymarfer y Grant Cymorth Tai newydd a dynameg y gweithio rhanbarthol newydd.</p>	BD
<p><b>8. Diweddariad Landlordiaid a Darparwyr Gwasanaethau Fforymau Darparwyr</b></p>	<p>Cafodd DT drafodaethau gyda Chyd-gynrychiolwyr PCRh ac awgrymodd bod ymateb darparwyr / landlordiaid ac i'r gwrthwyneb i'r PCRh yn gydweithredol a chyflenwol yn y dyfodol. Felly, mae'n ddelfrydol bod yr agenda rhwng fforymau darparwyr a chyfarfodydd PCRh yn ategu ei gilydd. Dylai adroddiadau diweddarau gynnwys cyfraniad cyfunol darparwyr a landlordiaid.</p> <p>Roedd trafodaeth rhwng cynrychiolwyr darparwyr a landlordiaid i gael dialog i allu rhannu gwybodaeth rhyngddynt.</p> <p>Cytunodd y Cadeirydd y gall hyn helpu diweddariadau'r dyfodol fod yn ystyrlon ac nid yn ddiweddariadau o gwmpas y bwrdd yn unig.</p>	



EITEM	COFNODION/CAMAU GWEITHREDU	ARWAIN
<p><b>Gweithredu</b></p> <p><b>Gweithredu</b></p>	<p>Gofynnodd DT a all darparwyr a landlordiaid gael agenda'r PCRh ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol fel eu bod yn rhannu ac yn cael gwybodaeth ar draws darparwyr a landlordiaid yn y rhanbarth trwy fforymau darparwyr lleol a rhanbarthol; ac a allant ymateb y ddwy ffordd.</p> <p>Gofynnodd y Cadeirydd am yr amserlen rhwng cyfarfodydd PCRh a fforymau darparwyr ac a fyddai'n ddefnyddiol cylchredeg y Cofnodion o fewn 2 i 3 wythnos yn dilyn cyfarfodydd PCRh.</p> <p>Fforymau lleol i gyd-fynd â chyfarfodydd PCRh. Agenda PCRh i fod ar gael i ddarparwyr 2 – 3 wythnos ar ôl cyfarfodydd PCRh.</p> <p>Efallai y bydd angen i'r PCRh fod â rhestr o bobl allweddol / cysylltiadau â darparwyr gwasanaethau i wybod y cysylltiadau a llinellau cyfathrebu rhwng y PCRh a Darparwyr / Landlordiaid yn y rhanbarth. Bydd hyn yn dod yn rhan o adolygiad y Cylch Gorchwyl a llywodraethu, gan atgyfnerthu atebolrwydd.</p> <p>Pobl berthnasol i allu rhoi gwybodaeth i'r CDRh.</p> <p>Pwysleisiodd GE y byddai thema neu Agenda dyfodol y PCRh yn helpu cynhyrchu dadl a thrafodaeth gyda chyddarparwyr mewn fforymau lleol. Yna bydd cynrychiolwyr landlordiaid a darparwr yn gallu ymateb yn ystyrlon i'r PCRh.</p> <p>Awgrymodd BD a fyddai'n iawn i gynrychiolwyr darparwyr a landlordiaid wneud cyflwyniad neu ymateb i fforwm lleol yn hytrach na'r CDRh. CDRh i ddal i fynychu Fforymau Darparwyr Lleol i gael ymdeimlad o beth sy'n digwydd.</p>	
<p><b>9. UFA</b></p>	<p>Ni chodwyd unrhyw fater arall.</p>	
<p><b>10. Dyddiadau cyfarfodydd y dyfodol / Themâu</b></p>	<p>Dydd Iau 7fed Mawrth, 10:00 – 12:30  Dydd Iau 13eg Mehefin, 10:00 – 12:30  Dydd Iau 12fed Medi, 10:00 – 12:30  Dydd Iau 12fed Rhagfyr, 10:00 – 14:00  Dydd Iau 12fed Mawrth 2020, 10:00 – 12:30</p> <p>Thema'r cyfarfod nesaf – Cyfranogiad 'Defnyddwyr Gwasanaethau'</p>	<p><b>Pawb</b></p>



Rhan 2 – Cynllun Strategol Rhanbarthol mewn dogfen ar wahân.

Paratowyd gan: BD